Diolchwyd am yr adroddiad. Ystyriwyd bod yr addasiadau yn gam pwysig i'r cyfeiriad cywir.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag awgrym gan Hymans y gall Cronfa Gwynedd osod eu targedau eu hunain, nododd y Pennaeth Cyllid bod rhai Cronfeydd yn gosod targedau eu hunain ond heb ystyried sut i'w cyrraedd. Amlygodd bod Cronfa Gwynedd wedi gwneud y penderfyniad o wir weithredu yn hytrach na gosod targed ac nad yw peidio cael targed yn golygu dim cynnydd. O ganlyniad, ystyriwyd bod cyfle i ymgyrchwyr ddylanwadu drwy weithredu yn gyfrifol yn hytrach na gosod addewidion gwag. Mewn ymateb i gwestiwn ategol am safbwynt Partneriaeth Pensiwn Cymru, nodwyd bod yr wyth awdurdod o fewn y gronfa o blaid buddsoddi cyfrifol, ond bod pob Cronfa yn gosod cyfeiriad a chyfnod amser / targed unigol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod cyfleoedd parhaus i'r Gronfa e.e., isadeiledd carbon
- Gall ymgysylltu a thrafod egwyddorion yn agored gyda chwmnïau arwain at wella sefyllfaoedd i'r dyfodol
- Dylid manteisio ar ymdrechion Rheolwyr Buddsoddi - e.e., egwyddor o blannu coed yn rhywbeth sydd yn cael ei drafod
- Awgrym i bob Cronfa sefydlu Grŵp Tasg fyddai'n adrodd a'r gymariaethau

**PENDERFYNWYD:**
**Cymeradwyo'r datganiad**
**Cadeirydd y Bwrdd, Y Cynghorydd Aled Evans i lofnodi'r datganiad**

## 10. PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2020-21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn hysbysu'r Aelodau o'r gwaith monitro chwarterol (a blynyddol) sydd yn cael ei wneud gan y Panel Buddsoddi ar berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers 2011, ond gyda chwymp ar 31 Mawrth 2020 oherwydd effaith pandemig Covid19.

Gwelwyd dychweliadau positif iawn ar fuddsoddiadau ecwiti gyda'r marchnadoedd yn bownsio nôl wedi cwymp chwarter olaf 2019/20 ynghyd a pherfformiad cryf iawn gan gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Yng nghyd-destun perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Eiddo nodwyd bod dychweliadau eiddo wedi bod yn bositif gydag adferiad yn y gwerthoedd cyfalaf yn adlewyrchu hyder cynyddol buddsoddwyr. Er hynny amlygwyd nad oedd y stryd fawr wedi perfformio cystal oherwydd bod ansicrwydd yn parhau gyda dyfodol siopau a swyddfeydd.

Diolchwyd am yr adroddiad a canmolwyd y ffigyrau

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn Uned gref Gymreig, gyda'r Cynghorau yn cydweithio yn dda ymysg ei gilydd. Ategodd bod y perfformiad yn adlewyrchu dychweliadau o fod a dewis ehangach o opsiynau posib.

Ategodd y Pennaeth Cyllid bod y sefyllfa yn un iach a bod y flwyddyn, o ystyried pandemig covid 19, wedi bod yn un llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 11. ADRODDIAD CADEIRYDD Y BWRDD PENSIWN AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA

Diolchwyd am yr adroddiad a chytunwyd bod angen cydymffurfio gyda'r Rheoliadau ac adrodd ar y sefyllfa bresennol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Y dylid cynnwys gwybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru o ystyried eu bod yn gyfrifol am weithgaredd Cronfa Gwynedd
- Bod angen diweddaru cyfrifoldebau'r Pennaeth Cyllid
- Bod y gair 'rhai' yn y frawddeg 'gwneud rhai penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu pensiynau' yn amwys - angen geiriad sydd yn egluro yn well
- Bod cyfeiriad at hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn ond dim ar gyfer y Pwyllgor Pensiynau

Mewn ymateb i sylw bod y geiriad 'cydymffurfio yn rhannol' yn ddatganiad amwys, nodwyd nad oedd y strwythur cyfredol yn caniatáu cydymffurfiaeth lawn. Ategwyd bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ystyried y sefyllfa gan adrodd bod modd ail ymweld a'r strwythur ar drothwy Etholiad 2022 ynghyd a chyflwyno rheoliadau newydd tebygol. Awgrymwyd, cadw'r geriad 'cydymffurfio yn rhannol' gan adolygu os daw newid

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**
**Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Llywodraethu yn ddarostyngedig i gynnwys yr addasiadau canlynol**

- **Ychwanegu paragraff yn amlygu grymoedd wedi'u dirprwyo gan y Cyngor i Bartneriaeth Pensiwn Cymru**
- **Addasu brawddeg 4 (Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor) i nodi *Gwneud rhai penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu pensiynau, <u>mewn eithriadau e.e., apeliadau</u>***
- **Diweddaru cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid i amlygu'r trefniant dros dro ar gyfer y cyfnod o 01/01/22**
- **Ychwanegu nodyn yn amlygu gofynion hyfforddiant aelodau'r Pwyllgor Pensiynau (fel sydd eisoes wedi ei amlygu ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn)**
- **Parhau gyda'r datganiad *'cydymffurfio'n rhannol'* gan adolygu'r datganiad os daw newid i strwythur y drefn reolaethol**

**6. AMSERLEN PRISIANT 2022**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn gosod amserlen ar gyfer prisio'r Gronfa Bensiwn fydd yn seiliedig ar yr aelodaeth ar 31 Mawrth 2022 gyda chyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2022. Pwrpas prisiad yw asesu sefyllfa ariannol y Gronfa, nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer chwyddiant ac enillion buddsoddiad yn y dyfodol ac adolygu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

Yn dilyn trafodaeth mewn cyfarfod rhagarweiniol gydag Hymans Robertson penderfynwyd ar y dyddiau arfaethedig. Gyda'r ymarferiad yn un sydd yn cymryd lle dros gyfnod hir, penderfynwyd gosod amserlen. Cyfeiriwyd at y gwahanol gamau sydd angen eu gweithredu gan awgrymu dau ddyddiad o hyfforddiant gydag Hymans fel bod modd i'r Aelodau dderbyn gwybodaeth dechnegol llawn.

Nodwyd bod y cyfnod yn un heriol a phrysur i'r Gwasanaeth Pensiwn gyda gwaith ychwanegol i'w gwblhau o baratoi a chyflwyno gwybodaeth lân a chywir i sicrhau bod canlyniadau'r prisiant mor gywir â phosib i bob cyflogwr. Er hynny ystyriwyd bod yr amserlen yn gyraeddadwy.

Diolchwyd am yr adroddaid

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod gosod amserlen yn crynhoi'r drefn yn effeithiol
- Bod cynnal hyfforddiant i'w groesawu a bod yr awgrym o gynnal hyfforddiant ar ddiwrnod y prisiad yn ddefnyddiol o ystyried bod y wybodaeth mor dechnegol
- Diolch i'r staff am eu hagwedd broffesiynol a'r gwaith clodwiw maent yn cyflawni

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod bwriad cynnal un sesiwn hyfforddiant yn dilyn cwblhau'r rhagdybiaethau terfynol (Ionawr 2022) a sesiwn ym mis Hydref 2022 wrth gyhoeddi canlyniadau'r cyflogwyr a diweddaru'r Datganiad Strategaeth Cyllido.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

## 7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r aelodau'n ffurfiol o waith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Adroddwyd bod cydweithio yn parhau i fynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn Mawrth 31ain 2021 bod 81% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda PPC. Nodwyd bod y perfformiad yn un 'safonol iawn' gyda nifer o ddatblygiadau ar y gweill sydd yn cynnwys trosglwyddo cyfran Marchnadoedd Datblygol o Fidelity i'r gronfa PPC. Bydd hyn yn dod a chyfanswm pwlio Gwynedd i 83%.

Nodwyd bod y Gronfa yn perfformio'n sylweddol uwch na'r meincnod yn gyson; bod cyfarfodydd Panel Buddsoddi yn gyfle da i holi a herio Rheolwyr; ac er bod sefyllfa covid wedi bod yn argyfyngus ar draws y byd bod marchnadoedd yn perfformio'n gryf.

Camau nesaf yn y broses fydd edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori Marchnadoedd Preifat sydd yn cael ei gynnal gyda chefnogaeth Hymans Robertson gyda thrafodaethau parhaus i benderfynu'r strwythur a'r mecanwaith priodol i fuddsoddi ynddo. Adroddwyd bod cynghorydd apwyntio arbenigol wedi ei apwyntio i gynorthwyo'r PPC i apwyntio rheolwyr buddsoddi addas i reoli'r dyraniad marchnadoedd preifat a bod tendr bellach wedi ei ryddhau i benodi rheolwr addas ar gyfer isadeladwaith a dyled preifat.

Yng nghyd-destun cynrychiolydd aelodau ar y Cyd bwyllgor Llywodraethu, nodwyd bod pob awdurdod cyfansoddiadol ar hyn o bryd yn cyflwyno addasiadau i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod sydd angen cymeradwyaeth pob Cyngor Llawn - cymeradwywyd yr addasiadau gan Cyngor Gwynedd ar y 7fed o Hydref 2021.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r holl staff oedd yn gysylltiedig â'r gwaith

Nododd y Cadeirydd fod PPC yn gronfa lwyddiannus ac effeithiol gyda dychweliadau derbyniol iawn. Ategwyd bod sefyllfa cronfa Cymru, o gymharu ag eraill ar draws y DU yn un cryf iawn a bod cydweithio da yn rhan amlwg o'r llwyddiant.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod yr adroddiad yn nodi perfformiad 'safonol iawn' yn y fersiwn Gymraeg, ond yn nodi *'very satisfactory'* yn y Saesneg sydd yn ymddangos yn well disgrifiad o'r sefyllfa / perfformiad – angen ail ystyried yr ymadrodd Cymraeg.
- Bod y trosglwyddiadau hyd yma wedi bod yn galonogol iawn – y trosglwyddiadau sydd yn weddill fydd yn gosod yr heriau mwyaf

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben 13:45

## NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

### Yn ôl categori

| 2019/20 | | 2020/21 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 48,356 | Pensiynau | 50,411 |
| 12,343 | Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm | 10,807 |
| 1,629 | Buddion marwolaeth – lwmp swm | 1,160 |
| **62,328** | | **62,378** |

### Yn ôl math o gyflogwr

| 2019/20 | | 2020/21 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 17,714 | Cyngor Gwynedd | 18,773 |
| 31,958 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 31,703 |
| 1,520 | Cyrff a ganiateir | 1,502 |
| 1,472 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 1,133 |
| 223 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 108 |
| 119 | Cyrff a benderfynir | 174 |
| 9,322 | Cronfa gaeedig | 8,985 |
| **62,328** | | **62,378** |

## NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY'N YMADAEL

| 2019/20 | | 2020/21 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 161 | Ad-daliadau i aelodau sy'n ymadael â'r gwasanaeth llai ad-daliadau treth | 92 |
| 1 | Taliadau i aelodau sy'n ymuno â chynllun y wladwriaeth | 0 |
| 4,507 | Trosglwyddiadau unigol | 2,960 |
| **4,669** | | **3,052** |

## NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

| 2019/20 Ailddatgan | | 2020/21 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 11,434 | Costau rheoli buddsoddiadau | 21,128 |
| 1,307 | Costau gweinyddol | 1,268 |
| 380 | Costau arolygaeth a llywodraethu | 273 |
| **13,121** | | **22,669** |

Mae costau rheoli wedi eu hail- ddadansoddi ar gyfer 2019/20 i fod yn gyson gyda 2020/21

## Nodyn 14b – Dadansoddiad o Fuddsoddiadau

### Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2020 £'000 | % | | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2021 £'000 | % |
|---|---|---|---|---|
| 604,237 | 31.3 | Partneriaeth Pensiwn Cymru | 1,360,124 | 54.1 |
| 565,379 | 29.3 | BlackRock | 735,481 | 29.2 |
| 157,230 | 8.2 | Grŵp Partners | 211,643 | 8.4 |
| 181,742 | 9.4 | Fidelity | 67,178 | 2.7 |
| 60,570 | 3.2 | Lothbury | 61,338 | 2.4 |
| 47,832 | 2.5 | UBS | 47,627 | 1.9 |
| 31,401 | 1.6 | Threadneedle | 31,904 | 1.3 |
| 625 | 0.0 | Veritas | 20 | 0 |
| 280,282 | 14.5 | Insight | 0 | 0 |
| **1,929,298** | **100.0** | | **2,515,315** | **100.0** |

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2020 £'000 | % | Buddsoddiadau | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2021 £'000 | % |
|---|---|---|---|---|
| 305,618 | 15.8 | Global Opportunities Fund PPC | 442,964 | 17.5 |
| 298,619 | 15.4 | Global Growth Fund PPC | 432,845 | 17.1 |
| - | - | Absolute Return Bond PPC | 307,181 | 12.2 |
| - | - | Black Rock ACS World Low Carbon Fund | 297,967 | 11.8 |
| 280,279 | 14.5 | LDI Solutions Plus Bonds | - | - |
| 274,417 | 14.2 | Black Rock Aquila Life UK Equity Index Fund | 211,625 | 8.4 |
| - | - | Multi Asset Credit Fund PCC | 177,134 | 7.0 |
| 137,117 | 7.1 | Fidelity Institutional Select Global Equity | - | - |
| 119,881 | 6.2 | Black Rock Aquila Life Gl. Dev Fundamental Fund | 172,052 | 6.8 |

## Nodyn 14c – Benthyca Stoc

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Yr incwm a enillodd y Gronfa trwy fenthyca stoc oedd £94,796. Ar hyn o bryd, mae gan Partneriaeth Pensiwn Cymru gyfanswm ecwiti a ddyfynnwyd o £469m ar fenthyg. Mae'r ecwiti hyn yn parhau i gael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y gronfa berthnasol. Nid oes unrhyw rwymedigaethau'n gysylltiedig â'r asedau a fenthycwyd.

**Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang**

Mae hwn yn gronfa Fyd-eang a Rhanbarthol sydd yn cynnwys saith rheolwr sylfaenol (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWQ ac Oaktree) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Medi 2021:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 0.5 | 24.3 | 15.6 |
| Meincnod | 1.4 | 22.2 | 14.5 |
| **Gwarged enillion** | **-0.9** | **2.1** | **1.1** |

Mae'r gronfa yma wedi ei selio ar ddull cyfunol gyda nifer o steiliau gwahanol (megis gwerth a thwf) sydd yng nghyd- fynd gyda'i gilydd. Mae'r Gronfa wedi perfformio yn dda ers y cychwyn ond wedi gorffen tu ôl i'r meincnod i'r chwarter i 30ain Medi 2021. Yn y cyfnod cafwyd perfformiad cryf gan stociau safon, momentwm a twf, ond bod anwaldrwydd yn y marchnadoedd datblygol a stociau gwerth a wnaeth arwain i'r gronfa tanberfformio yn gyffredinol.

**3. Cronfeydd Incwm Sefydlog**

Lansiodd y Bartneriaeth bum is- gronfa incwm sefydlog yng Ngorffennaf a Medi 2020 ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt: Cronfa Gredyd Aml-ased a Chronfa Enillion Bond Absoliwt.

**Cronfa Gredyd Aml- ased**

Trosglwyddwyd ein hecwiti byd-eang o Fidelity i'r gronfa yma yng Ngorffennaf 2020. Mae gan y gronfa bum rheolwr buddsoddi sylfaenol (ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Medi 2021:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 0.1 | 8.4 | 7.3 |
| Meincnod | 1.0 | 4.1 | 4.1 |
| **Gwarged enillion** | **-0.9** | **4.3** | **3.2** |

Mae'r gronfa wedi perfformio yn gryf iawn dros y tymor canolig ond wedi tanberfformio yn y chwarter diwethaf. Yn y chwarter roedd pryderon ynglŷn â chwyddiant gyda'r amrywiolyn 'Delta' ac ansefydlogrwydd gwleidyddol (e.e. Tsieina yn tynhau mewn rhai sectorau ac etholiadau'r Almaen) a wnaeth arwain at gynnyrch uchel i ymledu dros y cyfnod. Perfformiodd Barings a BlueBay yn dda dros y cyfnod gyda buddsoddiadau cynnyrch uchel yn y maes diwydiannol. Roedd perfformiad o dan y meincnod gan rhai o'r rheolwyr eraill oherwydd ansicrwydd gyda marchnadoedd datblygol a buddsoddiadau incwm sefydlog.

**Cronfa Enillion Bond Absoliwt**

Yn ei gyfarfod 24ain Mawrth 2021 bu'r Cydbwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun, a oedd yn manylu ar y broses benodi a argymhellir a'r fanyleb person a baratowyd gan y Gweithgor Swyddogion.

O ran y broses benodi, argymhellodd yr adroddiad y dylai pob Bwrdd Pensiwn lleol enwebu un cynrychiolydd aelodau'r cynllun a fyddai'n cyflwyno mynegiant o ddiddordeb yn nodi ei rinweddau penodol yn erbyn y fanyleb person. Byddai'r broses benodi yn cael ei chynnal gan is-grŵp Cydbwyllgor Llywodraethu a fyddai'n cyflwyno argymhelliad o ran penodi i'w gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

O ran y broses benodi cytunwyd dylai'r penodiad fod yn ddwy flynedd a dylai'r penodiad gynnwys dirprwy gynrychiolydd o Fwrdd Pensiwn gwahanol i Gynrychiolydd Aelod y Cynllun.

Mae’r broses angen newid i’r Cytundeb Rhyng-Awdurdod sydd angen cymeradwyaeth Cyngor llawn gan bob awdurdod cyfansoddol. Mae’r newidiadau i’r CRhA wedi ei gytuno gan Gyngor llawn yng Ngwynedd ar 7fed Hydref 2021.

### 4.4 Dychweliad Blynyddol PPC 2020/21

Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru angen yn gyfreithiol cwblhau set lawn o gyfrifon ac adroddiad blynyddol yn yr un ffordd â’r Gronfa Bensiwn, y gofyniad ydi bod cyfrifon yn cael eu paratoi ar ffurf dychweliad blynyddol. Roedd costau’r bartneriaeth yn £706,000 ar gyfer 2020/21.

Mae’r adroddiad blynyddol a pholisïau a dogfennau PPC ar gael ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru: www.partneriaethpensiwncymru.org

## 5. Argymhelliad

Gofynnir i’r Bwrdd nodi’r wybodaeth.

**Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Ecwiti**

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ecwiti unigol ar 30ain Medi 2021:

| | Gwerth marchnad 30/09/21 £m | Perfformiad 3 Mis % | Perfformiad 1 Blwyddyn % |
|---|---|---|---|
| Black Rock Aquila Life UK Equity<br>Meincnod | **228.6** | 2.2<br>2.2 | 28.0<br>27.9 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.0** | **+0.1** |
| Black Rock ACS Low Carbon<br>Meincnod | **332.3** | 3.9<br>3.8 | 24.6<br>24.1 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.1** | **+0.5** |
| Black Rock Aquila Life Global Dev<br>Meincnod | **184.5** | 1.6<br>1.5 | 34.2<br>33.6 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.1** | **+0.6** |
| Fidelity Emerging Market Equity<br>Meincnod | **64.9** | -7.3<br>-5.9 | 14.0<br>13.1 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-1.4** | **+0.9** |
| Cronfa PPC Global Growth<br>Meincnod | **446.5** | 0.8<br>1.4 | 27.1<br>22.2 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-0.6** | **+4.9** |
| Cronfa PPC Global Opportunities<br>Meincnod | **437.9** | 0.5<br>1.4 | 24.3<br>22.2 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-0.9** | **+2.1** |

Yn ystod y flwyddyn, bu dychweliadau positif iawn ar fuddsoddiadau ecwiti gyda'r marchnadoedd yn bownsio'n ôl ar ôl cwymp y pandemig yn Mawrth 2020. Cafwyd perfformiad cryf iawn gan gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru wrth i stociau gwerth berfformio'n dda ac i'r dull cyfunol weithio'n dda.

Yn ddiweddar mae'r perfformiad wedi bod yn is wrth i farchnadoedd Tsieina ddioddef oherwydd gor ddibyniaeth ar stociau technolegol a pryderon am adfywiad yr economi.

**Perfformiad Rheolwyr Incwm Sefydlog**

| | Gwerth Marchnad 30/09/21 £m | Perfformiad 3 Mis % | Perfformiad 1 blwyddyn % |
|---|---|---|---|
| Cronfa PPC Multi Asset Credit<br>Meincnod | **205.8** | 0.1<br>1.0 | 8.4<br>4.1 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-0.9** | **+4.3** |
| Cronfa PPC Absolute Return Bond<br>Meincnod | **331.7** | 0.2<br>0.5 | 2.2<br>2.1 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-0.3** | **+0.1** |

